# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mrs A Williams**


1/09/24

Annwyl Riant / Warchodwr,

Mae'n bleser gennyf eich croesawu i'r flwyddyn academaidd newydd. Gobeithiwn eich bod chi fel teulu wedi cael cyfle i ymlacio a mwynhau gwyliau'r haf. Mae holl staff Parc y Tywyn yn llawn brwdfrydedd am y flwyddyn i ddod ac edrychwn ymlaen at groesawu'r disgyblion yn ôl i'r ysgol ar ddydd Mawrth 3ydd o Fedi. Hoffwn ddechrau'r flwyddyn drwy rannu ein ffocws o'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

➢ **Trefn Dosbarthiadau**

Ar ddiwedd y tymor diwethaf, cawsoch eich gwahodd i sesiwn groeso'r dosbarthiadau. Dyma'r ddolen os rydych am wirio'r wybodaeth bwysig a rhannwyd yn y cyfarfodydd dosbarth yma cyn dydd Mawrth.

- **Disgyblion Meithrin**

**https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/parc-y-tywyn-school/UploadedDocument/5f18c6e5-ab85-496f-a844-615839449a02/cyflwyniad-croeso-rhieni-newydd.pdf**

- **Disgyblion Derbyn – Bl2**

**https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/parc-y-tywyn-school/UploadedDocument/0334220b-7ad5-418f-85e3-db79488315c4/2024-cyflwyniad-croeso-rhieni-newydd-derbyn-bl-1-a-bl-2.pdf**

- **Disgyblion Blwyddyn 3 - 6**

https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/parc-y-tywyn-school/UploadedDocument/f87632f3-8450-4a4f-8e6a-ede5043e8089/2024-cyflwyniad-croeso-rhieni-newydd-3-4-5-a-6.pdf

➢ **Pwysigrwydd Prydlondeb a Presenoldeb**

**https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/presenoldeb-a-gwyliau-attendance-and-holidays/**

Hoffwn dynnu eich sylw at ymgyrch bwysig fyddwn ni'n parhau i weithredu o'r enw "Pwysigrwydd Prydlondeb a Phresenoldeb - pob disgybl, ar amser, pob dydd". Mae'r glwyd yn agor yn y bore ar gyfer plant sydd ddim yn mynychu'r clwb brecwast am 8:50. Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 9:00 o'r gloch a disgwylir i bob plentyn fod ar dir yr ysgol yn brydlon. Bydd plant sydd yn cyrraedd ar ôl yr amser yma yn gorfod mynd drwy'r brif fynedfa ac yn derbyn marc hwyr.

Byddwn yn monitro presenoldeb disgyblion bob hanner tymor ac yn danfon llythyron adref yn eich hysbysu os bod eu presenoldeb yn syrthio o dan 92%. Os mae eich plentyn yn sâl rhowch alwad i'r swyddfa er mwyn awdurdodi absenoldeb. Os rydych am drefnu gwyliau yn ystod y tymor, rhaid cwblhau a dychwelyd y ffurflen gwyliau i'r swyddfa cyn mynd ar wyliau. Ni fydd unrhyw wyliau yn cael eu hawdurdodi heb ganiatâd y pennaeth.

➢ **Diogelwch Disgyblion**

Yn dilyn ein cais parhaus llynedd i rieni/gwarchodwyr i ddilyn y rheolau maes parcio er mwyn diogelu'r disgyblion, hoffwn ddechrau'r flwyddyn drwy drafod y rheolau sydd angen i BAWB glynu at:

- Uchafswm 5mya ydy'r cyflymder gallwch yrru ar y safle.
- Nid oes hawl parcio ym maes parcio'r staff (dim ond parcio ar y dde).
- Rhaid dod o hyd i lef ddynodedig i barcio ar y safle.
- PEIDIWCH â pharcio ar y llinellau dwbl melyn.
- Nid does hawl i rieni stopio ar y ffordd unffordd i ollwng eich plentyn.

Bydd staff allan yn gorchwylio'r sefyllfa yn ddyddiol ac yn gofyn i rieni i gadw at y rheolau er mwyn cadw'r maes parcio yn ddiogel i'r disgyblion. Gofynnwn yn garedig i BAWB i sicrhau mae diogelwch ein disgyblion sydd yn dod yn gyntaf eleni. **Sicrhewch eich bod yn rhannu'r neges uchod gyda phob person sydd yn gollwng neu gasglu eich plentyn.**

- **Cofiwch fod ein drws o hyd ar agor!**

Mae gennym bolisi 'drws agored' yma ym Mharc y Tywyn. Rydym yn gwerthfawrogi adborth a sgwrs onest felly siaradwch â ni yn uniongyrchol bob amser. Mae aelodau o staff wrth y gât ar ddechrau a diwedd y dydd i drafod unrhyw gwestiynau ac os bod materion/pryderon gennych, gallwch drefnu apwyntiad gyda'r athro ar amser sy'n gyfleus i'r ddau barti.

Yma yn yr ysgol, mae gennym grŵp ymroddedig o staff sy'n gweithio'n ddiflino i ddarparu'r cyfleoedd gorau i'ch plentyn. Gyda eich cefnogaeth barhaus, rydym yn ffyddiog bydd eleni yn flwyddyn lwyddiannus arall lle bydd eich plentyn yn cael amryw o gyfleoedd i lwyddo a thyfu. Edrychwn ymlaen yn fawr at gyd-weithio gyda chi dros y flwyddyn nesaf.

Yr Eiddoch,

*A Williams*
Pennaeth / Headteacher